

# Papur Pawb

Pris: 50c

Mai 2012

Rhif 379



Glain a Miriam gyda chyflwynwyr Cyw ar S4C – tud 9

tud 3

Pobl a Phethe

tud 4/5 a 9

Ysgolion

tud 11

Y Gair Olaf

tud 12

Chwaraeon

## Caffi Cletwr – diwrnod agored llwyddianus

**A**r ddydd Sadwrn 21ain Ebrill, cynhaliwyd diwrnod agored arbennig iawn yn Nghaffi Cletwr, Tre'r-ddôl. Gweiniwyd cacennau cartref, cawl a bara am ddim, drwy'r dydd. Roedd hwn yn ddigwyddiad i lansio prosiect cymunedol i ail agor Gwasanaethau Cletwr a gaëwyd bron i ddwy flynedd yn ôl.

Cafodd y digwyddiad ei gefnogi gan Cynnal y Cardi, cynllun sy'n cyfeirio cyllid at gefnogi syniadau busnes cyffrous sydd yn codi o'r gymuned. Roedd y diwrnod yn llwyddiant aruthrol, gyda'r caffi yn llawn drwy'r dydd a phobl lleol ac ymwelwyr yn mwynhau'r bwyd ardderchog a chael sgwrs gyfeillgar. Braff iawn oedd gweld cymaint o drigolion Llangynfelyn a'r cymunedau cyfagos, yn ogystal ag ymwelwyr â'r ardal, yn mwynhau ac yn cymdeithasu â'i gilydd. Mae'n dyst i'r ysbryd gweithgar yn ein cymunedau yng nghefn gwlad Cymru.

Cafodd y bwyd ei baratoi'n ffres gan fyfyrwyr arlwygo Coleg Ceredigion, a gynrychiolwyd ar y diwrnod gan Callum Pritchard, Caio Wilmot (Min-y-Môr, Taliesin) a Rhiannon Jennings. Roedd y myfyrwyr yn gweithio'n ddiflino i fwydo'r llif cyson o giniawyr, gyda help eu darlithwyr Jo Pearce a James Ward. Darparwyd cerddoriaeth werin draddodiadol Gymreig i greu awyrgylch bywiog gan ddau fand lleol - A Llawer Mwy a Cherddcegin.

Galwodd ein haelod cynulliad lleol, Elin Jones, i ddangos ei chefnogaeth, fel y gwnaeth y Cynghorydd sir lleol Ellen ap Gwynn, sydd â chysylltiad agos â'r fenter.

Roedd y gweithgor o wirfoddolwyr sy'n ymchwilio i'r posibilrwydd o ailagor y busnes wrth eu bodd gyda'r digwyddiad a oedd yn



llwyddiant ar bob lefel. Sefydlwyd grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr a gyd-dynnodd i helpu i redeg y diwrnod. Bydd y grŵp yma yn helpu i redeg digwyddiadau eraill yn y dyfodol, ac, yn y pen draw, i staffio'r busnes. Daeth cannoedd o ymwelwyr o bell ac agos, a derbyniwyd rhoddion hael iawn ganddynt i dalu am eu cinio am ddim! Roedd hefyd yn gyfle i godi proffil y fenter yn yr ardal a thu hwnt.

Derbyniwyd newyddion da yn sgîl y diwrnod agored, gyda chadarnhad bod Cwmni Cymunedol Cletwr wedi'i sefydlu'n ffurfiol a'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig. Bydd y gwaith caled yn parhau gyda thrafodaethau'n datblygu â pherchnogion y safle ynghyd â cheisiadau am arian grant.

Mae'r ymateb gan y gymuned leol wedi bod yn syfrdanol hyd yn hyn ac mae'r gweithgor yn hynod o ddolchgar i bawb sydd wedi dangos eu cefnogaeth trwy sawl ffordd. Dyma'r math o ymdrech dîm a fydd yn sicrhau y bydd menter gwasanaethau Cletwr yn cael ei rhedeg yn llwyddiannus gan y gymuned, er budd y gymuned.

## Papur Pawb

|                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                        |
|------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Golygydd Cyffredinol:</b> | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com<br>Cysyllter â golygyddion y mis                                                                                                                                                                                                                                                                                    | (01970) 832560                                                                                         |
| <b>Tynnu lluniau:</b>        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                        |
| <b>Tal-y-bont:</b>           | <b>GOHEBYDDION LLEOL</b><br>Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont<br>Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont<br>Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont<br>Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont<br>Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch<br>Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin<br>Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl<br>Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl<br>Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais | 832592<br>832438<br>832483<br>832498<br>832566<br>832230<br>832429<br>(01654) 781260<br>(01654) 781312 |
| <b>Maes-y-deri:</b>          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                        |
| <b>Parsel Henlys:</b>        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                        |
| <b>Bont-goch:</b>            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                        |
| <b>Tre Taliesin:</b>         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                        |
| <b>Tre'r-ddôl:</b>           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                        |
| <b>Eglwysfach/Ffwrnais:</b>  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                        |
| <b>Cadeirydd:</b>            | <b>CYMDEITHAS PAPUR PAWB</b><br>Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | 832433                                                                                                 |
| <b>Is-gadeirydd:</b>         | Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | 832093                                                                                                 |
| <b>Ysgrifennydd:</b>         | Siân Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | 832433                                                                                                 |
| <b>Trysorydd:</b>            | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | 832093                                                                                                 |
| <b>Tanysgriaffadur:</b>      | Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | 832448                                                                                                 |
| <b>Hysbysebion:</b>          | Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | (01654) 781312                                                                                         |
| <b>Plygu'r Papur:</b>        | Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                        |
| <b>Dosbarthwyr:</b>          | Enid Gruffudd; Susan Lewis; Gwenllian Parry-Jones                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                        |

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth  
Cyngor Celfyddydau Cymru – Bwrdd y Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

# Llythyr

### Annwyl ddarlleneydd,

Mae Cwmni Da yn chwilio am atgofion pobl am raglenni S4C ar gyfer rhaglen fydd yn dathlu pen-blwydd y sianel yn 30 oed eleni.

- Ydych chi'n cofio ble roeddech chi noson lawnsio S4C nôl ym mis Tachwedd 1982? Beth am ei phen-blwydd yn ddeg neu ugain oed?
- Pa raglenni ydych chi wedi eu mwynhau fwyaf ar S4C? A oes unrhyw ddigwyddiad arbennig neu raglen benodol sy'n aros yn y cof? A oes unrhyw raglen wedi gwneud i chi chwerthin neu grio llond eich bol?
- A oes gennych chi hoff

gyflwynwyr neu actorion sydd wedi ymddangos ar S4C ers i'r sianel gychwyn nôl ym 1982?

- Ydych chi erioed wedi ymddangos ar un o raglenni S4C? Beth yw eich atgofion o'r profiad hwnnw? Ydych chi wedi cyfarfod â chymar neu ennill gwobr fawr trwy gyfrwng un o'i rhaglenni? A oes gennych chi unrhyw atgofion am raglen ar S4C gafodd ei ffilmio yn eich ardal chi?

Beth bynnag fo'r stori, mae gennym ddiddordeb ei chlywed. Cysylltwch â Cwmni Da, Hen Ysgol Aberpwl, Ffordd Bangor, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4JS. Ffôn 01248 671167 neu E-bost [meinir.williams@cwmnida.tv](mailto:meinir.williams@cwmnida.tv)

## Adar

Denis Curry • Maria Hayes • Maura Hazelden  
Capel y Graig, Ffwrnais, SY20 8PQ  
Yn agor gyda noswaith o gerddoriaeth a pherfformiad gyda Julie Murphy, Lou Laurens a Changen

7 o'r gloch 1/6/12  
mae'r arddangosfa yn parhau 11yb - 6yp 1/6/12 - 8/6/12  
(ar gau dydd Sul)

### VIVA GUATEMALA Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2012

Cynhelir Parti Coffi yn Festri Rehoboth ar y cyd â Nazareth, Tal-y-bont  
ar 19eg Mai am 10.30  
Stondinau Cacennau  
a Chrefftau  
Dewch yn llw

### Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

### Cyfarfod Blynyddol

Nos Lun 14 Mai  
7.30  
Neuadd Goffa Tal-y-bont

Croeso i Bawb

## Dyddiadur

### Mai

- 12** Bore coffi yn Neuadd Llanfach, Tre Taliesin, 10.00-12.00, i gefnogi Sioe Llangynfelyn.
- 13** Bethel 10 a 6 *Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion*  
Nazareth  
Rehoboth  
Eglwys Dewi Sant 11  
*Boreuol Weddi*
- 13-19** Wythnos Cymorth Cristnogol
- 14** Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, Cyfarfod Blynyddol. Neuadd Goffa Tal-y-bont. Croeso cynnes i bawb
- 17** Sefydliad y Merched, Tal-y-bont  
*Arddangosfa Cwiltiau, Llanbedr*
- 20** Bethel 10 *Gwasanaeth Teulu, Branwen Nicholas, Cymorth Cristnogol*  
Nazareth 5 *Parch Judith Morris*  
Rehoboth 10 *Rhydian Griffiths*  
Eglwys Dewi Sant 11  
*Cymun Bendigaidd*
- 21** Merched y Wawr, Tal-y-bont - Cyfarfod Blynyddol  
*'Dyma fel oedd hi'r oes o'r blaen'*  
(Kathleen Richards, Carys Briddon ac Ann Jenkins)
- 25** Clwb Nos Wener - Llew Gwyn  
*Meinir Gwilym*
- 27** Bethel *Uno yn Nazareth*  
Nazareth 10 *Grwp y Morfa*  
Rehoboth 5 *Bugail*  
Eglwys Dewi Sant 11  
*Gwasanaeth Deuluol*  
Capel Tynant 3.30 *Parch Richard Lewis*

### Mehefin

- 2** C.FEI Rali'r Sir ar fferm Llechwedd, Llanwenog
- 3** Bethel 2 *Gwenidog* (C)  
Nazareth 10 *Bugail* (C)  
Rehoboth 5 *Bugail*  
Eglwys Dewi Sant 11  
*Cymun Bendigaidd*

Lluniau i'w mwynhau  
Darluniau Gwreiddiol

Oriel Wynmel

ARDDANGOSFA  
orielwynmel  
MORLAN, ABER  
Mai 1-31  
[www.orielwynmel.co.uk](http://www.orielwynmel.co.uk)

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.



Cydnabyddir cefnogaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Catrin, gyda Ceri'n dylunio.

Golygyddion mis Mehefin fydd Beryl Evans 01970 832344  
ffermglaanrafon1@btconnect.com  
a Mair Nutting  
01970 832027  
[mair.n@btinternet.com](mailto:mair.n@btinternet.com)

Y dyddiad olaf i dderbyn newyddion fydd dydd Gwener 1 Mehefin, a bydd y papur ar werth ar 8 Mehefin.

### Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

### Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:  
Anthony Motors  
Volkswagen



**papurpawb.com**



**Pen-blwydd Hapus**

Dymuniadau gorau i Delsie Owen, Gerddi Gleision, Bont-goch, Dafydd Jenkins, Penpompren Uchaf, Ceri Jones, Pistyll y Llan a Wayne Bradley, 97 Maes y Deri sydd wedi dathlu pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar. Bydd Evan Jenkins, Carregcadwgan yn dathlu pen-blwydd arbennig ddiwedd y mis ac anfonwn ein llongyfarchiadau iddo yntau hefyd.

**Dathlu'r Deunaw**

Llongyfarchiadau i Tiffany Davies, Maes-y-deri a Ieuan Dennis, 8 Maes y Felin ar ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed.

**Brysiwch Wella**

Anfonwn ein cofion at Howard Ovens, Frondirion sydd wedi derbyn triniaeth yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Mae Gwilym Roberts, 99 Maes-y-deri yn ysbyty Bronglais ar hyn o bryd a'n dymuniadau gorau iddo yntau.

**Gwellhad Buan**

Gobeithio bod Gareth Evans, Swyn y Ffrwd a Jim Owen, Hengoed, Bont-goch a Margaret Jones, Nantgaredig yn dal i wella, ill tri wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Jane Evans, 94 Maes-y-deri ar golli chwaer, modryb i Julie, Anna, Karen a Rhian.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Mrs Moses, 8 Maes-y-deri sydd wedi colli merch yn ddiweddar, modryb i Rachelle Jones a hen fodryb i Tia, Alfi ac Isabelle, 89 Maes-y-deri.

Cydymdeimlwn â Myfanwy James, Sian a Lynwen ar golli modryb yn Abermagwr, Trawscoed yn ddiweddar.

Roedd yn ddrwg gennym glywed fod Bob Southgate, 93 Maes-y-deri a'r teulu wedi colli chwaer yng nghyfraith Bob, sef Eiry Southgate, Aberystwyth.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Dilwyn ac Eirlys, Cerrigcaranau, ar ddod yn Fam-gu a Dad-cu unwaith eto. Ganed Gwilym Egryn, mab bach i Edward a Caryl, Clos Bach, a brawd bach i Aneira Fflur.

# Pobl a Phethe



## Priodas

Ar 14 Ebrill yng nghapel Bethel, Tal-y-bont priodwyd Emsyl James, Llanerch gynt a Rhodri Llwyd, Glandwr, Llanuwchllyn. Mae'r ddau yn byw yng Nghaerdydd, ble mae Emsyl yn dysgu a Rhodri yn gweithio i'r BBC. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

**Arholiad Piano**

Llongyfarchiadau i Mariead Jones, Ynys Tudur ar basio arholiad piano gradd 3 gyda theilyngdod. Mae Mariead yn un o ddisgyblion Helen Hicks.

**Newid Aelwyd**

Croeso cynnes i Kaylie Lewis a Teifi Jones sydd wedi symud i 'Fflur' ac i Gareth a Helen Morris sydd wedi symud i Brooklyn. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

**Ar y Ffordd**

Llongyfarchiadau i Rhian Jones, Ardwyn a Sion Southgate ar basio eu prawf gyrru yn ddiweddar.

**Gwellhad Buan**

Brysiwch wella i Mrs Non Griffiths, Fferm Ffwrnais, Ffwrnais, Miss Myra Jones, Pen y graig, Ffwrnais a Mr Geoff Hughes, Foelas, Glandyfi sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau**

Braf oedd clywed am lwyddiant Chris Gilbert, Swyn-y-Nant, Tre'r Ddôl yn gosod blodau yn Rali Gwanwyn Sefydliad y Merched Ceredigion yn Neuadd Llanrhystud.

Llongyfarchiadau i dair o ferched talentog yr ardal ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Penrhyncoch fis diwethaf. Cafodd Miriam Davies, Tŷ Gwyn y wobwr gyntaf am lefaru a chanu dan 6 oed, a'i chwaer Glain y wobwr gyntaf am lefaru 6-8 oed a thrydydd am ganu 6-8 oed. Cafodd Heledd Davies, Gwynfryn hithau yr ail wobwr am lefaru 8-10 oed.

Daeth Llwyddiant arbennig i Ella Grug Evans, Y Dderwen ym mhencampwriaeth Carati KUGB, Graddau Kyu Gogledd Cymru. Enillodd dlysau arian mewn cystadleuthau ymryson dull rhydd a Kata, sef cyfres o symudiadau Carati i ferched.

**Llongyfarchiadau i Ellen**

Ar 3 Fai cynhaliwyd yr etholiadau lleol gyda dau ymgeisydd lleol yn ymgeisio am sedd Ward Ceulanamaesawr ar Gyngor Sir Ceredigion. Cipiodd Ellen ap Gwynn, dros Blaid Cymru y sedd am y pedwerydd tro o'r bron, gyda 62% o'r pleidleisiau yn erbyn Mark Joseph, ymgeisydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae hyn ynddoi hun yn dipyn o gamp ac wrth ei llongyfarch diolchwn iddi am ei holl waith caled dros y gymuned. Dymunwn yn dda iddi wrth barhau gyda'r gwaith am y pum mlynedd nesaf wrth gynrychioli'r rhan yma o Ogledd Ceredigion. Yn dilyn ei buddugoliaeth dywedodd Ellen:

'Hoffwn ddiolch o galon i etholwyr ward Ceulanamaesawr am roi eu ffydd ynof unwaith yn rhagor. Dwi'n edrych ymlaen i barhau i weithio gyda pawb ohonoch o Dal-y-bont i Glandyfi ac o Ynyslas i Bontgoch er lles ein cymunedau. Os oes unrhyw un am gysylltu a mi gallwch wneud hynny ar [ellenag@ceredigion.gov.uk](mailto:ellenag@ceredigion.gov.uk) neu trwy ffonio 01970 832551'.

**Croeso Adre**

Braf gweldd Heulwen Astley nol tu ol i gownter siop Spar Tal-y-bont ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Anfonwn ein dymuniadau gorau ati.

**Croeso**

Croeso i Anna Motohashi sydd wedi dychwelyd i Gymru i fyw yn Gwynfryn, Ffwrnais. Efallai fod rhai darllenwyr ac yn ei chofio yn Ysgol Bro Ddyfi pan oedd hi'n Anna Macadam ac i Peter a Maureen Holmes sydd wedi symud i Gastell Glandyfi.

**Crefftwraig**

Llongyfarchiadau i Ffion Nelves ar ennill y wobwr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Eryri am ei mwgwd i ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9. Bydd y mwgwd yn cael ei arddangos yn Eisteddfod yr Urdd Eryri yng Nglynllifon.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Steffan ac Elen Roberts, Mynydd Gorddu ar enedigaeu eu merch fach Lois Martha.

## Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-Bont

Bu'r clwb yn brysur iawn yn paratoi yn ystod y mis diwethaf at gystadleuaeth Diwrnod Maes y sir. Cynhaliwyd rhai o'r cystadlaethau eleni ar fferm IBERS yng Ngogerddan ar y 18ed o Fawrth Cipiodd Gwion Tanllan y trydydd safle am drimio oen, a'r tîm Effeithlonrwydd a Diogelwch yn cyrraedd yr ail safle, sef Geraint Penpompren, Dylan Morris, Hefin Neuadd Fawr ac Elen Thomas. Yng ngystadleuaeth y ffensio llwyddodd Elgan Ty Nant, Llyr Penbanc a Geraint Cerrigcaranau i gyrraedd yr ail safle. Cynhaliwyd gweddill cystadlaethau'r Diwrnod Maes ym Mart Tregaron yr wythnos ganlynol. Bu'r clwb yn cystadlu mewn lluo o weithgareddau ond y criw iau amlygodd eu hunain yn y gystadleuaeth barnu stoc dan 14 oed gyda Alwenna Jenkins, Ynysgreigiog yn bedwerydd a Llyr Jones, Ynystudur yn ail fel unigolion a chipiodd y tîm oedd yn cynnwys Sara Jenkins, Tynygraig a Gwenno Evans, Tanllan y wobwr gyntaf. Ar ddiwedd y dydd llwyddodd y clwb i gyrraedd yr ail safle. Da iawn chi!

Edrychwn ymlaen y nawr at Rali'r Sir a gynhelir eleni gan C.F.F.I Llanwenog ar yr 2il o Fehefin. Dewch yn lluo i gefnogi ac i fwynhau diwrnod allan gyda'r teulu.



## Campau Rhys a Millie

Mae Rhys Wynne Davies a'i gaseg *Millie* wedi'u dewis i gymryd rhan ym Mhencampwriaeth Tetrathlon Prydain yn Bicton, Dyfnaint, ym mis Mehefin. Mae Rhys, sy'n un-ar-dddeg mlwydd oed, yn byw yn Rhoslan, Pentrebach, ac mae ef a *Millie* wedi bod yn ymarfer yn galed ar gyfer y gystadleuaeth.

Felly beth yw Tetrathlon? Mae pedair elfen i'r cystadlu: saethu at darged, nofio, rhedeg, a neidio ceffylau ar draws gwlad. Rhaid felly i Rhys fod yn gwbl heini ac wedi ymarfer yn gyson. Mae'n codi am 6.00 bob bore i fwydo *Millie*, sy'n saith oed erbyn hyn, a charthu'r stablau.

Mae Rhys yn aelod o glybiau merlota Gogerddan a Dyffryn Paith ac eisoes eleni cafodd lwyddiant ar gefn *Millie* mewn sawl cystadleuaeth leol ac yn sir Gaerfyrddin a Phowys.

Dilyna Rhys ôl traed ei ddad-cu, y diweddar Allan Joseph, a oedd yn joci llwyddiannus yn ei ddydd.

Pob lwc i Rhys a *Millie* yn y Bencampwriaeth mis nesaf ac at y dyfodol.

## Ysgol Llangynfelyn



*Seamus Byrne, Steddfod yr Urdd*



*Efion Hicks ym y Llyfrgell Genedlaethol*



*Poppy a Finn yn rhoi bath i'r crwbano*



*Iwan a'r neidr filiroed*



*Zeb Rowell, ennill cystadleuaeth*



# Ysgol Llangynfelyn

## Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012

Efallai i chi gofio fod ffotograffau Seamus Byrne, Blwyddyn 2, wedi dod yn gyntaf yn yr Eisteddfod Gelf a Chrefft, Rhanbarth Ceredigion. Rydym wedi clywed fod ei gyfres o bedwar ffotograff du a gwyn wedi dod yn gyntaf yn Genedlaethol. Bydd ei ffotograffau i'w gweld yn yr Arddangosfa Gelf a Chrefft ar y Maes yng Nglynllifon. Cofiwch alw heibio os ydych yn mynd i'r Eisteddfod ym mis Mehefin. Da iawn ti Seamus, ac edrychwn ymlaen i weld dy waith yn yr Eisteddfod.

## Penwythnos Llangrannog

Aeth Ffion, Willow, Milly a Mabli am benwythnos i Langrannog gydag ysgolion eraill Ceredigion. Bu'r bedair yn cymeryd rhan mewn amryw o weithgareddau tra'n gwneud ffrindiau newydd.

## Pacio Bagiau yn Morrisons

Aeth criw o blant a rhieni i Archfarchnad Morrisons yn ddiweddar i godi arian i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Buont yn brysur iawn yn pacio bagiau a llwyddwyd i gasglu £140.

## Campau'r Ddraig

Daeth Bryn Evans, Cydlynnydd Ceredigion Actif, i gynnal sesiwn golff yn ein Clwb Campau'r Ddraig ar ôl ysgol ar nos Iau. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn yn y sesiwn hwyliog hwn.

## Croeso

Croeso mawr iawn i Karen Stacey neu Kaz atom fel cynorthwy-ydd Clwb Brecwast. Mae Kaz hefyd yn gwirfoddoli gyda sesiynau Mathemateg gan ei bod yn athrawes gymwysedig.

## Edupets

Daeth Cara o Edupets atom yn ddiweddar gyda chasgliad diddorol o anifeiliaid anwes. Bu'r plant yn dal a chwarae gyda madfallod, cwningod, moch cwta, malwod anferth, neidr filtroed anferth a chrwbanod. Uchafbwynt yr ymweliad oedd rhoi bath i'r crwbanoed. Dysgodd y plant lawer iawn am yr anifeiliaid a gofynnion nhw gwestiynau diddorol i Cara.

## Ennill Cystadleuaeth

Yn ystod Wythnos Gwyddoniaeth yn y Brifysgol yn Aberystwyth y mis diwethaf cymerodd plant Cyfnod Allweddol 2 ran mewn cwis. Bu Zeb Rowell, Blwyddyn 4 yn llwyddiannus a derbyniodd dystysgrif a gwobr o falwn arbennig sy'n medru hedfan. Da iawn ti Zeb!

## Llyfrgell Genedlaethol

Aeth Dosbarth Miss Jones gyda Dosbarth Mr Legett o Ysgol Craig yr Wylfa, i'r Llyfrgell Genedlaethol i weld arddangosfa am y Gemau Olympaidd. Cafwyd brynhawn diddorol iawn yn edrych ar yr arteffactau a'r darluniau.

## Arolwg ESTYN

Diolch yn fawr iawn i holl staff yr ysgol, rhieni, llywodraethwyr, gwirfoddolwyr, phlant ac aelodau o'r gymuned am eu cefnogaeth a'u cymorth yn ystod yr Arolwg diweddar. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn ddiwedd y tymor.

Siop y Pethe  
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau  
(01970) 617120

*Rhian*

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy  
ffôn 832 612  
07835 525 553

# Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Sioe nos Lun 5 Mawrth yn y Neuadd Goffa.

Adroddodd y Cadeirydd Elgan Evans ein bod wedi cael blwyddyn llwyddiannus. Diolchodd i'r Llywyddion a'r Swyddogion ac i bawb arall am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Llywyddion y sioe eleni yw Mr a Mrs John Thomas, Frondeg, Heol Caerfyrddin, Castell Newydd Emlyn.

Etholwyd y Swyddogion canlynol am 2012:

Cadeirydd Elgan Evans, Tynant, Is-gadeiryddes Menna Morgan, 4 Dôl Pistyll, Trysorydd Howard Ovens, Frondirion. Ysgrifennyddes Gyffredinol Janet Jones, Llwynglas. Ysgrifennyddes y Babel Dilys Morgan, Alltgoch. Cyfarwyddwyr y Sioe Teulu Bryngwyn Mawr, Rheolwr y Maes Emyr Davies, Llety Ifan Hen.

Bydd y sioe yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 25 Awst ar gaeau'r Llew Du drwy ganiatad caredig Teulu Richards Glanleri.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni yn ein pwyllgorau sy'n cael eu cynnal ar y nos Lun cyntaf o bob mis yn y Neuadd Goffa am wyth o'r gloch.

## Y BBC yn dychwelyd i Ynys-hir

Bydd y cyfresi bywyd gwyllt poblogaidd 'Springwatch' a 'Springwatch Unsprung' yn darlledu'n fyw eleni eto o Warchodfa Natur yr RSPB yn Ynys-hir. Bydd y rhaglen gyntaf yn cael ei darlledu ar BBC 2 ar nos Lun, 28 Fai ac yna'n parhau am gyfnod o dair wythnos. Braf iawn yw gweld llecyn lleol yn cael sylw haeddiannol a bod ein treftadaeth naturiol yn cael ei werthfawrogi fel hyn.

## Cwmni Drama Licris Olsorts

Bu'r wythnosau diwethaf yn gyfnod digon prysur i'r cwmni drama lleol Licris Olsorts wrth iddynt baratoi drama newydd ar gyfer cystadlu yn y gwyliau drama a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r ddrama wreiddiol 'Cerdd y Cyffro' o waith y dramodydd Emyr Edwards yn ymdrin â gorthrwm pobl gyffredin gan gyfundrefn unbeniaethol dreisgar. Yn aelodau o'r cast mae Sharon King, Rhian Evans, Sion Pennant, Janet Roberts, Eleri James a Glyn Jones gyda Sion Pennant yn ymgymryd â'r dasg o gynhyrchu hefyd. Bu'r criw yn cystadlu yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon yn ddiweddar a byddant yn cystadlu ar 12 Mai yng Ngŵyl Corwen. Dymuniadau gorau iddynt ar y cystadlu.

**loga**

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,  
Nos Fawrth am 7.30 - 9.00.  
Pris £5.00  
Cysylltwch a  
**Sue Jones-Davies**  
**01970 624658**



**Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion**  
**i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd**

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

**Cysylltwch â ni am fanylion pellach**

**Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk**

**Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>**

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,  
Ceredigion, SA46 0PA



*Coedwig Mametz lle y lladdwyd R R Humphreys yn 1916.*

## Cymry'r Rhyfel Mawr


Ddechrau'r mis, fe fues yn Fflandrys a Ffrainc yn ymchwilio i hanes y Cymry a fu'n ymladd a marw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu nifer o'r ardal hon ym merwr frwydr, fel y tystia'r gofeb yn y Neuadd Goffa. Deuthum ar draws enw un ohonynt, sef Richard Rowland Humphreys, ar gofeb anferth yn Thiepval. Yno mae ymhlith 72,205 o enwau'r sawl a laddwyd ar y Somme ond sydd heb fedd.

Er ei fod yn cael ei enwi yn y gyfrol *Ein Canrif*, nid wyf yn gwybod fawr ddim amdano ond ei fod yn ugain oed pan laddwyd ef a'i fod yn breifat gyda'r 15fed Bataliwn o'r Gatrawd Gymreig (rhif 35141). Gwn hefyd ei fod yn fab i Edward a Jane Humphreys, a oedd yn byw yn Tancoed yn 1901, Penrhif yn 1911, ac wedi hynny yn 4 Stryd Birkenhead, Tal-y-bont.

Mae'n debyg iddo gael ei ladd ar 11 Gorffennaf 1916 yn ystod y frwydr waedlyd yng Nghoedwig Mametz. Dioddefodd y 38ain Adran (Cymreig) yn enbyd yn y frwydr, gyda dros 4,000 wedi'u lladd neu eu clwyfo. Collodd y 15fed Bataliwn chwarter o'i ddynion yn y frwydr, gan gynnwys, ar wahân i R R Humphreys, dau frawd a saethwyd gan yr un *sniper* ac a fu farw ym mreichiau ei gilydd. Gwelais feddau'r ddau mewn mynwent ger y goedwig. Yn 1987 gosodwyd cofeb – draig goch ysblennydd – i gofio'r Cymry a gollodd eu bywydau yng nghoedwig Mametz.

Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sy'n gwybod mwy o hanes Richard Rowland Humphreys neu am brofiadau rhai eraill o'r ardal hon yn ystod y cyfnod tywyll hwnnw.

*Gwyn Jenkins*



*Enw R R Humphreys ar gofeb Thiepval*



## Clwb Nos Wener

Roedd hi'n noson hynod o hwyliog a llwyddiannus mis diwethaf pan ddaeth Linda Griffiths (Plethyn gynt) a dwy o'i merched Lisa Angharad a Gwenno Elan atom i'r Llew Gwyn. Gyda'r 'stafell fach yn orlawn roedd naws braf yno a'r canu yn odidog. Mae llais Linda mor swynol ag erioed a'r cymorth lleisol ac offerynnol gan Lisa a Gwenno yn ychwanegu at y teimladau gwerinol, atgofus a rhamantus a gafwyd. I unrhyw un sy'n caru clywed caneuon am gymuned a chymeriadau cefn gwlad Cymru a Maldwyn roedd hon yn noson i'w thrysori.

Rydym yn ceisio cadw pris y tocynnau'n isel, diolch i gymorth ariannol Noson Allan. I ddarllenwyr Papur Pawb sydd ddim wedi mentro allan i weld beth sydd gan Clwb Nos Wener i'w gynnig, Meinir Gwilym fydd gyda ni ar 25 Fai.

Gwylwch allan am wybodaeth am noson ola'r tymor gyda Tudur Owen yn y Llew Du.

## Clwb Nos Wener

Nos Wener 25 Mai  
8pm Y Llew Gwyn  
Tal-y-bont

## Meinir Gwilym

Tocynnau £6  
Medi 832725  
Fai 832560

**Cymdeithas Alzheimer's** | Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

**Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi arian, body yn gyfaill, a, gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli, mae yna rywbeth i bawb**

Mae 40,700 o bobl yn dioddef o ddementia yng Nghymru ac mae'r ffigwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

**Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli**  
**ar 01269 845953 / 07715 802632**  
**neu e-bostio:**  
**[gillian.morgan@alzheimers.org.uk](mailto:gillian.morgan@alzheimers.org.uk)**

Elusen gofrestredig rhif 296645



## Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch

Daeth yr aelodau ynghyd ar nos Lun, 16 Ebrill ac estynnodd y llywydd groeso i'n gŵr gwadd am y noson, sef Rhodri Edwards, perchennog tafarn y Ffarmers yn Llanfihangel y Creuddyn. Bu diddordeb ganddo mewn coginio ers yn ifanc ac ar ôl gweithio am gyfnod yng Nghaerdydd, fe benderfynodd y teulu ddychwelyd i ardal eu magwraeth yn Aberystwyth i sefydlu busnes eu hunain lle maent yn cyflwyno cynnyrch Cymreig a chynnyrch lleol ar y fwydlen. Talwyd y diolchiadau gan Aileen Williams. Elizabeth Evans, Myfanwy James a Tegwen Jones oedd yng ngofal y te.

## Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cyfarfu aelodau'r Cyngor Cymuned ar nos Fawrth, 17 Ebrill.

Cafwyd adroddiad am y cyfarfod a gafwyd gyda chynrychiolwyr o'r Asiantaeth Gefnffordd ynglŷn â'r llinellau melyn arfaethedig yn Nhaliesin.

Mae baw ci dal yn broblem mewn sawl ardal yn y gymuned. Penderfynwyd bod angen arwyddion mwy o faint a mwy gweladwy i rybuddio perchnogion cŵn a'u hatgoffa am eu cyfrifoldebau.

Mae parcio yn parhau yn broblem yn Nhaliesin a pharheir i ofyn i'r awdurdodau am ateb posib.

Penderfynwyd gofyn i gynrychiolydd o Balchder Pentrefi ddod atom i roi cyflwyniad yn y dyfodol agos.

Rhoddyd gwybod i adran Briffyrdd Ceredigion fod y ffordd ger mynwent Llangynfelyn yn suddo.

Gobeithir y bydd materion sydd angen sylw ar lwybrau cyhoeddus yr ardal yn cael eu trin dan y cynllun grantiau i gynghorau cymuned.

Penderfynwyd anfon llythyr i gefnogi menter Cwmni Cletwr, ac i ddymuno'n dda iddynt.

Derbyniwyd sawl llythyr o ddiolch gan ymgeiswyr lleol yn dilyn y cyfraniadau blynyddol a wnaed gan y Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd ymuno ag Un Llais Cymru eto eleni.

Bydd y cyfarfod blynyddol a'r cyfarfod nesaf ar 14 Mai 2012.

## Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Yn ystod y ddeufis ers fy ngholofn ddiwethaf, rwyf wedi mynychu nifer helaeth o ddigwyddiadau amrywiol ar hyd a lled Ceredigion. Nôl ym mis Mawrth, roedd hi'n fraint i gael derbyn gwahoddiad Merched y Wawr Beulah i'w hannerch yn eu cyfarfod yng Nghaffi Emlyn, Tan-y-groes. Roedd hi'n braf gweld cynifer o wynebau cyfarwydd yn bresennol a chael cyfle i esbonio fy nyletswyddau fel Aelodau Cynulliad Ceredigion.

Roeddwn hefyd yn falch i gael fy ngwahodd i fod yn banel wraig mewn seiat holi a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth, i nodi Diwrnod Rhwyngwladol y Menywod. Rwyf wedi bod yn mynychu digwyddiadau gwahanol i nodi'r diwrnod hwn yn flynyddol yn y sir, ac rwy'n gobeithio y gwnaeth y gynulleidfa fwynhau'r drafodaeth.

Mynychais agoriad swyddogol yr amddiffynfa arfordirol yn y Borth ychydig wythnosau yn ôl. Rwy'n gwybod bod trigolion yr ardal wedi bod yn edrych ymlaen at weld y gwelliannau yma ers blynyddoedd er mwyn delio gyda bygythiad y cynnydd yn lefelau'r môr, ac roedd hi'n dda gweld Gweinidog yr Amgylchedd yn dod i weld ffyrth buddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd dros ei hun.

Yr un diwrnod, roeddwn yn bresennol yn y seremoni fer a gynhaliwyd i agor y maes chwarae newydd ar dir y castell yn Aberystwyth. Mae yna alw mawr yn lleol am gyfleusterau newydd ar gyfer plant – boed yn lleol neu'n dwristiaid – ac rwy'n gwybod bod defnydd da eisoes yn cael ei wneud o'r maes chwarae ar ei newydd wedd.

Rwyf hefyd wedi cefnogi trigolion ystâd Maesglas yn Aberteifi sy'n brwydro yn erbyn cynlluniau Tai Ceredigion i leihau ac adleoli eu maes chwarae er mwyn medru codi mwy o dai. Bwriad y preswylwyr yw cofrestru'r maes chwarae fel 'clwt pentref' er mwyn atal unrhyw ddatblygiadau ar y tir yn y dyfodol. Mae trigolion Tal-y-bont eisoes wedi cyflwyno cais o'r fath i atal cynlluniau i godi mwy o dai ar faes chwarae ar ystâd Maes-y-Deri. Rwy'n gefnogol i ymgyrchoedd trigolion Aberteifi a Thal-y-bont i gofrestru'r tiroedd at ddefnydd cymunedol ac rwy'n edrych at gydweithio gyda nhw ymhellach ar eu ceisiadau dros y misoedd nesaf.



### Gwesty'r Llew Du Black Lion Hotel

Talybont, Ceredigion, SY24 5ER

### Bwyty a Bar Newydd!

Cinio 12 - 2.30  
Dau gwr am £10 y person  
Mercher i Sadwrn

Swper Nos 6 - 9  
Mawrth i Sadwrn

Cinio Sul 12 - 3  
Prydau o £9

### Galwch heibio!

01970 832 555

[www.gwestyllewdu.com](http://www.gwestyllewdu.com)

### Bistro Gannets



### Bywd a Gwin Da

7 St James Square, Aberystwyth

617164

Ar agor Llun i Sadwrn  
12-2 a 6-9.30

### Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygu o'r safon uchaf.

Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.

Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA

Ffôn: 01970 871042

Symudol: 07773 846659

## GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI  
GWASANAETH GOLCHI  
DWFES MAWR  
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES  
Ffôn: 01970 612459  
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SL



## GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,  
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun

[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)

Ffôn: 01970 832278

# 'Seren y Gweithiwr'

Tybed faint o bobl a wŷr fod yna ryw beth arbennig ar fin digwydd ym myd seryddiaeth eleni? Nid oeddwn innau'n ymwybodol o'r ffaith nes i mi ddigwydd edrych drwy bapurau fy Nhadau (James Pearce Evans, Y Siop, Bontgoch) yn ddiweddar, a dod o hyd i gopi o *Gymru'r Plant*, dyddiedig Ionawr 1905. Ynddo roedd erthygl ddiddorol o'r enw 'Seren y Gweithiwr' wedi ei hysgrifennu gan berson yn dwyn y ffugenw 'Sigma', gan ddechrau fel hyn:

Ar brydnawn tyner a chlir yn nechreu mis Ionawr, trowch eich gwynebau tuag awyr y gorllewin. Ymhen awr wedi machlud yr haul, pan fo ei belydrau amryliw olaf yn cilio draw, yno chwi gewch weled "seren y gweithiwr", neu "seren yr hwyr", yn disgleirio. Y blaned Gwener (*Venus*) ydyw. Hi yw seren cariad, y blaned dlysaf o holl blanedau ein cysawd ni ...


Mae'r blaned Gwener wedi ei henwi ar ôl y dduwies Rufeinig o gariad a harddwch, a hi yw'r ail blaned yng Nghysawd yr Haul. Mae Gwener rhyw 67,200,000 milltir oddi wrth yr Haul ac yn cylchdroi o'i amgylch bob 224.7 diwrnod. Gwener yw'r blaned sy'n dod agosaf at y Ddaear, a chyfeirir ati fel chwaer blaned i'r Ddaear oherwydd y tebygrwydd mewn maint, cyfaint a dwysedd. Nid oes dŵr ar y blaned, ac mae'r atmosffer yn drwm a niwlog ac wedi ei wenwyno gan garbon diocsid. Ei hwyr yw'r un boethaf yn y system solar gyda'r tymheredd o 477°C wedi ei achosi gan effaith tŷ gwydr o ganlyniad i'r carbon diocsid. Oherwydd y niwl ar ei hwyr, caiff golau'r Haul ei adlewyrchu oddi arni gan ei gwneud yn un o'r planedau mwyaf disglair. Mae ar ei mwyaf disglair cyn i'r wawr dorri, neu'n fuan ar ôl machlud haul, a dyna pam y caiff Gwener ei hadnabod fel 'Seren y Dydd' (neu 'Seren y Gweithiwr'), neu fel 'Seren y Nos'. O sylwi arni dros amryw brynhawniau, dywed yr erthygl fod y blaned yn newid ei lle yn gyflym yn y ffurfafen: mae'n seren fore pan fyddo'r ochr orllewinol i'r Haul gan iddi godi o'i flaen, ac yn seren hwyr pan fyddo'r ochr ddwyreiniol iddo, am ei bod yn machlud ar ei ôl.

Ond mae yna ffaith ddiddorol am y blaned Gwener y gwyddai 'Sigma' amdani yn 1905, sef hyn: pan fo'r blaned yn teithio rhwng y Ddaear a'r Haul, nid yw fel arfer yn croesi wyneb yr Haul. Ond fe ddigwydd hynny mewn cylch o 243 mlynedd, ac ar hyn o bryd mae'n digwydd ddwywaith o fewn wyth mlynedd, gyda 105.5 mlynedd neu 121.5 mlynedd rhwng pob cylch. Y tro olaf i'r blaned Gwener groesi wyneb yr Haul oedd ym mis Mehefin 2004, felly bydd hynny'n digwydd eto ar 5-6 Mehefin eleni, a gwyddai 'Sigma' hynny gan iddo nodi'r ffaith yn ei erthygl. Gwyddai hefyd mai anfyng y digwydd hyn, ac am hynny dywed ei bod yn 'olygfa hynod a bythgofiadwy'. Y ddau dro i hyn ddigwydd cyn 2004 ac eleni oedd ym misoedd Rhagfyr 1874 ac 1882; a'r ddau dro nesaf y bydd hyn yn digwydd fydd ym misoedd Rhagfyr 2117 a 2125. Yn y dyddiau a fu roedd taith y blaned Gwener yn bwysig i haneswyr a seryddwyr wrth iddynt astudio'r system solar, a digwyddodd taith ymchwil Captain Cook i draeth dwyreiniol Awstralia ar ôl iddo hwylio i Tahiti yn 1768 i wyllo taith y blaned Gwener.

Dau baragraff olaf erthygl 'Sigma' sydd o ddiddordeb i ni eleni, ac mae'n werth eu cofnodi yma:

Gan fod chwylyglch Gwener bron yn wastad ag eiddo y ddaear, hi ddaw gan hynny cydrhwng ein byd ni a'r haul, ac os digwydd hi fod y pryd hynny ar y trawsglwm (*node*) teithia dros wyneb yr haul, ar lun ysmotyngweledig i'r llygad noeth. Anfyng iawn yn wir y gwelir hi yn gwneud hyn. Am hynny y mae yr olygfa yn hynod a bythgofiadwy.

Clywed sôn beunydd a byth am ddiwygiad 1859 y bydd plant Cymru heddiw. Mae rhyw gymaint o obaith am weled un arall yn y man. Ond ni chant weled Gwener yn croesi yr haul. Rhagfyr 4ydd, 1639, y gwelwyd hi gyntaf yn croesi yr haul. Pan fo'r blodau yn perarogli ar y pumed o Fehefin, 2012, y gwna hi hynny eto. Pa le y bydd plant Cymru yr adeg honno? Bron nad wyf yn dychmygu eu gweled yn sylwi arni yn croesi yr haul y pryd hynny. Troant eu gwynebau drachefn yr ochr draw i'r haul, yn y pellder draw acw, - dyna blaned dlos yn disgleirio'n



Y darlun eglurhaol allan o *Gymru'r Plant*, Cyf. XIV, Rhif 157, Ionawr 1905

brydferth. A! dyna'r ddaear, y blaned fach y cawsant hwy yr aruchel fraint o dreulio peth amser arni. Yr ochr draw, yn y wlad tuhnt i'r llen, y byddant yr adeg honno.

Pwy oedd awdur yr erthygl, tybed? 'Sigma', ei ffugenw, yw'r ddeunawfed llythyren yn yr wyddor Roegaidd, felly mae'n amlwg ei fod yn berson eang ei wybodaeth a chanddo ddiddordeb mewn seryddiaeth. Daeth ei broffwydoliaeth am ddiwygiad yn wir hefyd gan i Ddiwygiad Evan Roberts ledu drwy'r wlad yn 1905. Oherwydd i mi ddarllen yr erthygl byddaf innau'n gwyllo'r blaned Gwener yn croesi wyneb yr Haul ar ddechrau mis Mehefin eleni. Tybed beth a ddywedai fy Nhadau pe gwyddai hynny gan ei fod yntau hefyd yn ŵr gwybodus ac yn hoff o edrych ar arwyddion y sêr a'r lloer a'r byd o'i gwmpas?

Carys Briddon

**argraffu da  
am bris da**

**ylLolfa** holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

**MID WALES STORAGE**

**Storfa Canolbarth Cymru**

|                   |                        |
|-------------------|------------------------|
| STORFA DODREFN    | STORFA FUSNES ARCHIFAU |
| STORFA I FYFYRWYR | PACEDU                 |

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV  
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)  
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ  
Ffôn: 01654 703592





## Cymdeithas y Chwirydd, Rehoboth

I gloi'r tymor am eleni, aeth aelodau'r Gymdeithas i gael te prynhawn yng ngwesty Ynyshir ar brynghawn braf, 17 Ebrill. Cawsom groeso cynnes gan y perchnogion, Mr a Mrs Reen, ac roedd gwledd yn ein disgwyl yno drwy garedigrwydd cwmni Carrilion. Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Wyn Morris.

Ar ôl i bawb fwynhau'r te estynnwyd croeso i Mr Julian Wilson o gwmni Carrilion, a chawsom y newyddion diweddaraf ganddo ynglŷn â'r gwaith ffordd sy'n digwydd yng Nglandyfi. Diolchodd Mai Leeding i staff Ynyshir, cwmni Carrilion ac i Eirlys Jones am ei help gyda'r trefniadau. Ar ddiwedd y tymor fel hyn, dymuna'r aelodau ddiolch i Mai a Myfanwy Rowlands am drefnu cyfarfodydd diddorol ar ein cyfer dros y gaeaf.

## Ysgol Tal-y-bont



Aeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar ymweliad i'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn gweld arddangosfa 'Dilyn y Fflam' sy'n canolbwyntio ar hanes y Gemau Olympaidd ac yn arbennig rhan Cymry yn y gemau. Cawsom brynghawn difyr o ddysgu a mwynhau.



Daeth ymwelwyr arbennig i'r ysgol ar fore Gwener y 4ydd o Fai. Fel rhan o'u gwobr am ennill cystadleuaeth Cyw ar S4C cafodd Glain a Miriam ymweliad gan y cyflwynwyr Rachael ac Einir o'r rhaglen Awr Fawr Cyw. Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn ymuno yn yr hwyl wrth gwrdd â'r cyflwynwyr, cael llofnodion a mwynhau sesiwn o ganu a dawnsio. Diolch Glain a Miri!



Llywydd y Gymdeithas, Gwilym Jenkins yn cyflwyno 'Cwpan Rumenco' i Bedwyr Siencyn, Tanrallt, gyda Dewi Hughes o HCC yn cyflwyno cwpan Hybu Cig Cymru i Huw Davies, ar ran Pencwm.

## Arbrawf Wyn Hyrddod

Ar 16 Ebrill eleni daeth 17 o aelodau Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion i ddisgwyl yr ŵyn hyrddod yn ôl. Ers blyneddau lawer mae aelodau'r gymdeithas yn anfon ŵyn i ffwrdd i'w cael eu gaeafu ar dir llawr gwlad. Eleni, cafodd 50 o ŵyn eu danfon i fferm Bodermyd Isaf, Aberdaron drwy garedigrwydd Mr Cledwyn Owen. Dyma'r tro cyntaf i'r Gymdeithas anfon ŵyn i'r fferm yma, ac ni chafwyd ein siomi. Daeth yr ŵyn yn ôl yn edrych yn dda iawn, gyda'r ŵyn wedi ennill pwysau o 14.6kg ar gyfartaledd dros gyfnod o 13 wythnos o bwyso. Cafodd yr ŵyn eu pwysu 4 gwaith yn ystod y cyfnod, ac yna ar y diwedd roedd Hybu Cig Cymru yn trefnu i'r ŵyn gael eu scanio i fesur dyfnder cyhir a braster. Drwy rhoi'r wybodaeth yma i gyd at ei gilydd, daeth hwrdd Pencwm ar y brig. Roedd yn pwysu 68.6kg ar ddiwedd yr arbrawf, wedi ennill 16.6kg ers 12 Ionawr, gyda cyhir yn mesur 32.3mm, a braster yn mesur 4.8mm, yn rhoi indecs o '151'. Yr hwrdd yma enillodd Gwpan Hybu Cig Cymru, gyda hwrdd o Tanrallt yn ail gyda indecs o '131'.

Penderfynwyd eleni, ddewis yr hwrdd mwyaf addawol allan o'r ugain uchaf o'r rhestr indecs. Rhoddwyd 4 oen ar y rhestr fer a daeth hwrdd Tanrallt yn fuddugol gyda 32 o bwyntiau, hwrdd Ceiro, Ponterwyd yn ail efo 21 o bwyntiau, hwrdd Tyngraig yn drydydd efo 19 o bwyntiau, a hwrdd Ceiro yn bedwerydd gyda 15 o bwyntiau. Hwrdd Tanrallt felly yn ennill Cwpan Rumenco. Diolch i Hybu Cig Cymru am nodd i'r arbrawf unwaith eto eleni.



## Brodor o Dre Taliesin yn cario'r fflam yn Aberaeron

Bydd myfyrwr ifanc a fagwyd yn Nhre Taliesin yn cario'r fflam Olympaidd drwy strydoedd Aberaeron ar 27 Mai. Mae Evan Rowbottom, Dyffryn, Stryd y Capel, Tre Taliesin, sydd bellach yn astudio peirianeg yng Nghaerlŷr, wedi'i ddewis ar sail ei waith fel gwirfoddolwr gyda Chaiaacwyr Aberystwyth. Erbyn hyn mae'n hyfforddwr caicio cymwysedig ac ef yw Cadeirydd Clwb Caiaicio Prifysgol Caerlŷr. Mae Evan yn amlalentog â sawl pluen i'w gap, gan gynnwys hyfforddi cadetiaid ifainc yn y cylch, cydarwain Band Pres Ieuencid Aberystwyth ar y cornet ac eleni ymunodd â Band Pres Ieuencid Cenedlaethol Cymru. Ar ben hynny, derbyniodd Evan Wobr Swyddog Cymorth Cyntaf Ifanc 2008 yn sgil ei ymateb sydyn ac effeithiol i ddamwain gar ddifrifol. Mae Evan a'i deulu wrth eu boddau â'r anrhydedd ddiweddaraf yma ac rydym yn dymuno pob lwc iddo ar y diwrnod mawr.



## Taith i Hwngari gyda'r CFFI

Fe ges i'r cyfle ynghyd â Louis o Lanbrynmair i fynd i gynrychioli CFFI Cymru yn Seminar y Gwanwyn yn Bwdapest, Hwngari yng nghanol mis Ebrill. Beth yw Seminar y Gwanwyn? Wel, mae'n gyfle i sefydliadau pobol ifanc yng nghefn gwlad Ewrop ddod at ei gilydd i gydweithio ac hyfforddi ar lefel rhyngwladol o dan ymbarel Cyngor Ewrop yn adran *Rural Youth Europe*.

Roedd bron i 40 o bobl yno am yr wythnos, dau ohonom o Gymru. Yn arferol, mae'r ystod oedran ond yn mynd fyny i 30 oed (ydw, dwi dal dan 30....jyst!), ond gan fod y pwnc yn trafod "Pontio'r Bwlch Oedran" – roedd yn gyfle gwyb i ymestyn yr oedranau o 18 i 67.

Fe gawsom amserlen orlawn i gymharu profiadau, rhannu syniadau ac adolygu popeth. Un o'r pethau cyntaf ar y rhaglen oedd bwffe rhyngwladol, a phawb yn blasu Bara Brith a Chwrrw Cymru. Fe welom beth mae'r gwledydd eraill yn gwneud a chael cyfle i wneud cyflwyniad o'r hyn sy'n cael ei wneud yng Nghymru. Roedd yn ddiddorol cael gweld bod rhai o syniadau'r gwledydd eraill yn bethau y byddem yn cymryd yn ganiataol. Pethau fel holi cyn-aelod i ddod a chynnal noson clwb yn dangos crefft. Roedd hyn yn rhywbeth y teimlai Latvia nad oedd yn bosib iddi nhw wneud. Roedd sawl gwlad yn perthyn i'r 4-H, a'i harwyddair yw "dysgu trwy wneud".

Yn ffodus iawn, roedd amser i gymdeithasu ond dim amser i ymlacio! Llauer o amser i chwarae gemau, ond prin amser i weld y ddinas – felly bydd rhaid mynd nôl yno rhyw ddiwrnod.

Felly beth sy'n digwydd nesa? Mae Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Undod Rhwng y Cenedlaethau yn cael ei gynnal ar 29ain o Ebrill yn flynyddol o eleni ymlaen, ac mae eleni yn flywyddyn Undod Rhwng y Cenedlaethau yn Ewrop.



**Glanyrafon**

**Teiars**  
**Aliniad Olwyn**  
**Ecsôsts**  
**Batris**  
**Brêcs**  
**Hongiad**  
**Bar tynnu**  
**Gwasanaeth**  
**MOT**

**Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
 Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan  
**ALIGNMYCAR.CO.UK**  
 Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.  
**HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774**

**Mathew Davies**  
**Plymio a Gwresogi**

**07964 124 457 ar gael 24 awr**  
**hefyd gwaith teilio**  
**Nwy • Olew • Tanwydd Solet • Solar**

**Afiaith**  
 Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
 Prydlon • Personol

Martin Davis  
 Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH  
 Powys SY20 8JG Cymru  
 Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

**NFU Mutual**  
 INSURANCE • PENSIONS • INVESTMENTS  
**We do right by you**

**Yswiriant,  
 Pensiynau,  
 Buddsoddiadau**

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:  
**01970 612331**

[www.nfumutual.co.uk/aberystwyth](http://www.nfumutual.co.uk/aberystwyth)

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (inc. incorporated). Registered in England. Registered Office: Station Road, Sandhill, Upper Kew, Warrich, Cheshire CW9 9LE. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

**Cawod Defaid Symudol**  
**ARTHUR MORGAN**

Dosbarthwn a gwaredwn 'dip defaid'

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
 01239 615085 – 07721 786292

**Salon Leri**

*Pob agwedd o drin gwallt gan Richard*

Pedicure • Manicure  
 10am-7pm  
 Llun-Gwener  
 (01970) 832 674



## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd nos Lun 30 Ebrill.

### Pwyllgor Rheoli Datblygu

Darllenwyd llythyr oddi wrth Brif Weithredwr Cyngor Ceredigion mewn ymateb i sylwadau'r Cyngor am y budr-fargeinio fu rhwng y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r datblygwyr a gyflwynodd gais cynllunio i godi annedd ar bwys Trem-y-ryhos, Bont-goch. Nid oedd ymateb y Prif Weithredwr yn bodloni'r Cyngor parthed amhroffesiynoldeb y drafodaeth yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

### Balchder Pentrefi

Adroddwyd fod cyfarfod arbennig o'r Cyngor wedi ei gynnal ar 23 Ebrill i wyntyllu syniadau ar gyfer llunio cais o dan y cynllun Balchder Pentrefi 'i wella edrychiad a chyfeusterau mannau cyhoeddus sydd yn cael eu rheoli gan, neu'n berchen gan, unrhyw dref neu bentref yng Ngheredigion...'. Ymhlith y syniadau a dderbyniodd gefnogaeth y Cyngor oedd gosod pedair mainc newydd a dau dwbyn blodau ar y Patshyn Glas; dymchwel y gysgodfan bysiau goncridd bresennol ar bwys Maes-y-deri, a gosod cysgodfan bysiau newydd yn ei lle; codi hysbysfwrdd cyhoeddus newydd ar y llain tir ger y gysgodfan o flaen yr ysgol, a symud un o'r meinciau o'r Patshyn Glas yno; hefyd, codi arwyddion i ddynodi enwau strydoedd y pentref. Cyn y gellir cyflwyno cais ffurfiol i'r Gronfa Adnewyddu Cyngorau Tref a Chymuned Ceredigion rhaid ymgynghori gyda swyddog y project a chael amcangyfrif o gostau'r cynlluniau er mwyn blaenoriaethu'r awgrymiadau os bydd angen.

### Etholiad 2012

Adroddwyd na fydd angen cynnal etholiad i'r Cyngor Cymuned y tro hwn. Mae 11 o seddi ar y Cyngor ac enwebwyd 11 o unigolion. Bydd y Cyngorwyr presennol yn ymddeol a Chynghorwyr newydd yn derbyn eu swyddi ar 8 Mai. Mae dau o'r aelodau presennol – y Cyngorwyr Evan Evans a Delyth Ifan – wedi dewis sefyll i lawr, a bydd dau aelod newydd yn ymuno â'r Cyngor o fis Mai ymlaen, sef David Evans, Neuadd Fawr a Bleddyn Huws, Henllan. Ar ran aelodau'r Cyngor, diolchodd y Cyngorydd Eric Roberts i'r Cyngorwyr Evan Evans a Delyth Ifan am eu gwasanaeth. Bu'r Cyngorydd Evan Evans yn aelod o'r Cyngor am 17 mlynedd, a'r Cyngorydd Delyth Ifan yn aelod am ddeng mlynedd.

### Llwybr Troed i'r Fynwent Gyhoeddus

Darllenwyd llythyr a anfonwyd gan Reolwr Llwybr Ffyrdd (Gorllewin), Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn egluro nad yw'r llwybr uchod wedi'i gynnwys yn rhaglen waith arfaethedig 2012/13. Ond, serch hynny, bydd cyfle i drafod y cais gyda swyddogion y Cynulliad a Sustran ym mis Mai. Bwriad y trafodaethau hynny fydd ceisio sicrhau cyllid i gynnal ymchwiliad rhagarweiniol i'r cynllun. Os bydd cyllid ar gael, gobeithir y bydd modd gosod rhaglen weithredu mewn llaw.

### Archebiant a Grant Mynwent

Adroddodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi trosglwyddo £14,378.84 i goffrau'r Cyngor ar 27 Ebrill 2012, sef Archebiant o £12,000 a Grant Mynwent gwerth £2,378.84.

### Ceisiadau Cynllunio

Adroddwyd fod y ceisiadau cynllunio canlynol wedi eu caniatáu gan yr awdurdod cynllunio: codi estyniadau i rif 14 a rhif 20, Dôl Pistyll, ynghyd â newidiadau i hen ysgubor y Llew Du.

### Hen Fynwent Tabernacl

Cytunwyd i wario peth o'r arian sydd yng nghronfa Mynwent Tabernacl i atgyweirio'r wal deryn rhwng Mynwent Tabernacl a Mynwent Nasareth a hefyd i godi ffens lle bo angen i rwystro'r defaid sy'n pori'r fynwent rhag dianc.

### Arwydd Ffordd

Cytunwyd i ysgrifennu at y Cyngor Sir yn gofyn eto am ail-godi arwydd ffordd ym Mwllch-y-garreg yn dynodi'r ffordd i Bonterwyd a Thal-y-bont.

### Maes Chwarae yn Bont-goch

Nodwyd fod cais wedi ei dderbyn gan y Cyngorydd Ellen ap Gwynn oddi wrth rai o rieni Bont-goch yn gofyn am faes chwarae yno i'r plant. Cytunodd y Cyngor y dylid archwilio'r posibiladau.

## Y Gair Olaf



"Mae angen 250 o eiriau - dim mwy, dim llai!" Dyna oedd gorchymyn y golygydd ac felly, dyma fynd ati i ysgrifennu'r rhif priodol o eiriau...

Ond wrth gwrs, dim ysgrifennu'r geiriau a wnaif, ond eu teipio ar y cyfrifiadur. Gwasgu un botwm ar ôl y llall, a gweld y geiriau yn ymddangos yn gryno ar y sgrin.

Pan oeddwn yn yr ysgol gynradd, rwy'n cofio'r diweddar Ithel Jones yn ein dysgu i ysgrifennu gyda *italics*, ond mae llawer tro ar fyd ers hynny. Erbyn heddiw, pur anaml y defnyddir llawysgrifen i greu llythyr. Ceir ychydig o lawysgrifen ar waelod cerdyn ac yna'r cyfeiriad ar yr amlen, ond dim mwy na hynny. Mae'r cerdyn post wedi mynd yn beth prin - yn bennaf am fod y danfonwr yn cyrraedd adref cyn i'r cerdyn gyrraedd pen ei daith. Ac wrth gwrs, mae pris y stampiau wedi codi eto...

Na, haws o lawer rhoi galwad ffôn neu ddanfon neges destun.

Rhai canrifoedd yn ôl, roedd y gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn beth prin ymysg y werin. Sgwn i a fydd yr un peth yn wir yn y dyfodol? Pawb yn gwasgu botymau a chyffwrdd y sgrin, ac yn dibynnu ar y dechnoleg ddiweddaraf i ddechongli eu lleisiau. A'r cyfan yn sicrhau fod ein gallu i ysgrifennu yn dirywio ac yn y pen draw, yn diflannu...

Ond ar y llaw arall, o gofio pa mor annealladwy yw llawysgrifen ambell ddoctor, efallai nad drwg o beth yw hynny i gyd!

David Jones, *Bwlchdydwyrallt*

## Gofal Traed Aber

Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

### Triniaeth yn y cartref ar gael

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**  
4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



Am  
**GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

## Iwan Jones



### Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,  
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ

[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)

**01970 832760**

# CHWARAEON



Jac Jones, Tomos Jenkins, Dylan Wyn Benjamin, Huw Taylor, Bedwyr Jenkins, Nat Davies, Gwydion James, Connor Byrne, Keiren Renolds

## Teirw Talybont ar y brig

Dechreuodd siwrne Teirw Talybont dan 10 yng Nghwpan Cynghair Ieuencid Aberystwyth ar fore dydd Sadwrn 3ydd o Fawrth gan chwarae 3 gêm, y gyntaf yn erbyn Penrhyn Devil's, gêm glos iawn a'r sgôr yn gyfartal, ennill 4-0 yn erbyn Bont Utd yn yr 2ail gêm ac ennill 5-0 yn y gêm olaf yn erbyn Tregaron Lions. Mynd trwyddo i'r rownd gyn-derfynol yn erbyn Penrhyn Celt, ac ennill 2-0 i sicrhau ei lle yn y ffinaal.

Profiad mawr i'r bois ar 5ed o Fai oedd cael chwarae ar gae Coedlan y

Parc, Aberystwyth yn erbyn yr hen elyn Bow Street. Perfformiad cryf, cadarn a chwarae gwych gan bob un chwaraewr, gêm gystadeuol iawn yn yr hanner cyntaf gan y ddau dim ond di-sgôr. Toriad hanner amser yn rhoi cyfle i'r rheolwyr Wyn Benjamin a Martin James i drafod tactics.

Cafwyd dechrau positif i'r ail hanner gan y Teirw, ymosod a chreu un siawns ar ôl y llall, dim ond mater o amser ac ond 5 munud yn weddill dyma Jac Jones yn taro'r bêl i gornel y rhwyd 1-0 i'r Teirw. Dyna oedd y sgôr terfynol, diolch i'r holl gefnogwyr a ddaeth lawr i wyllo.

### Talent lleol

Ar 2 Ebrill fe deithiais draw i Iwerddon am gyfnod o wythnos i chwarae pêl-droed i ddim dan 16 Cymru.

Gwnaethom chwarae tair gêm i gyd ac roedd y gêm gyntaf yn erbyn Lloegr. Canlyniad y gêm oedd 1-1 a bu rhaid mynd ymlaen i giciau o'r smotyn ac yn anffodus colli fu ein hanes. Yn yr ail gêm chwaraeom yn erbyn Gogledd Iwerddon gan golli o 3-1, cyn mynd ymlaen i chwarae yn erbyn Iwerddon yn y gêm olaf gan ennill o 2-1. Cefais brofiad anhygoel.

Ar 6 Ebrill teithiais i Wrecsam i chwarae hoci i ddim o dan 16 Cymru. Fe wnaethom chwarae tair gêm dros gyfnod o dri diwrnod, pob un yn erbyn yr Alban. Roedd y gêm gyntaf yn gêm gyfartal sef 1-1, gwnaethom golli'r ail gêm o 3-0, cyn ennill y gêm olaf o 3-1.

Rwyf eisiau diolch i fy hyfforddwyr pêl-droed a hoci dros y blynyddoedd diwethaf, sef Jane Bailey a Brian Richards pan oeddwn yn yr ysgol gynradd. Hoffwn ddiolch i'r adran chwaraeon yn ysgol Penweddig hefyd, yn enwedig i Miss Wyn a Miss Hope.



Nia Jones



Mae'n amlwg fod Shaun Byrne wrth ei fodd wrth dderbyn Cwpan Dartiau Papur Pawb oddi wrth Mark Ebenezer, un o drefnwyr y Noson Ddardiau a gynhaliwyd yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont, ar 21 Ebrill. Fel mae'n digwydd curwyd Mark gan Shaun yn y rownd derfynol.

Trefnwyd y gystadleuaeth er mwyn codi arian ar gyfer Gymdeithas Cae'r Odyn Galch. Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar i Ceri Jones am ei holl waith wrth drefnu'r noson.

## Gŵyl Pêl-droed Talybont

Maes Chwarae, Cae'r Odyn Galch, Talybont a'r Cylch



**Dewis Lwcus £1 yr un Gwobrau | £100 | £50 | £25**

Noddwyd gan: Kelly Milverton Senses Beauty, Rhian Mobile Hairdressing, Anthony Foulkes, Owain Jones

**Bydd bwyd ar gael ar y maes**

**Dan 7 | Dan 9 | Dan 11**

**Dechrau 10am**

Oedolion **£1**

**23/6/12**

